WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rhaglen arfaethedig ar gyfer archwilio gwerth am arian i ddechrau yn 2006-07

**Medi 2005**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhaglen arfaethedig ar gyfer archwilio gwerth am arian i ddechrau yn 2006-07** | |
| Sut mae fy nghynigion yn cael eu datblygu | 3 |
| Gwaith ar y gweill | 4 |
| Gwaith ym meysydd eraill fy nghylch gwaith | 5 |
| Fy nghynigion personol | 6 |
| **Atodiadau** | |
| Amlinelliadau o gynigion astudiaethau gwerth am arian | 10 |
| Amlinelliad o raglen ddrafft astudiaeth llywodraeth leol 2005-06 | 24 |

# Rhaglen arfaethedig ar gyfer archwilio gwerth am arian i ddechrau yn 2006-07


1. Mae'n bleser gen i amlinellu fy nghynigion cyntaf ar gyfer fy rhaglen archwilio gwerth am arian i ddechrau yn y flwyddyn ariannol 2006-2007. Mae'r memorandwm hwn yn amlinellu'n fyr sut mae'r cynigion wedi'u datblygu yng nghyd-destun fy ngwaith arall. Mae'n darparu pwynt dechrau ar gyfer ymgynghoriad y Pwyllgor ac rydw i'n croesawu barn y Pwyllgor ar y cynigion.

## Sut mae fy nghynigion yn cael eu datblygu

2. Yn ganolog i ddatblygiad y rhaglen hon ydy fy ymrwymiad i ychwanegu gwerth at y rhai rydw i'n eu harchwilio. Mynegir hyn yn natganiad bwriad Swyddfa Archwilio Cymru:

   *"hybu gwelliant fel bod pobl yng Nghymru'n elwa o wasanaeth cyhoeddus ymatebol sy'n cael ei reoli'n dda ac sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian"*

3. Mae'r pwyslais hwn ar welliant yn adlewyrchu'r pwerau newydd a roddwyd i mi yn ôl Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) i gynnal astudiaethau sy'n fy ngalluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian cyrff cyhoeddus. I ryw raddau, mae'r ddeddfwriaeth newydd yn cydnabod realaeth arfer presennol sef archwilio sut mae adnoddau wedi'u defnyddio a chanfod dulliau o wneud gwelliannau. Fy mwriad i ydy gwneud hybu gwelliant yn nodwedd ganolog fy strategaeth.
4. Bydd y strategaeth y bydda i'n cyflwyno amlinelliad ohoni i'r Pwyllgor i gyd-fynd gyda'i ystyriaeth o'r memorandwm hwn, yn gyrru fy holl waith fel y gwelir yn y diagram isod.




5. Canfyddir fy nghynigion personol ar gyfer archwilio drwy asesu risg i werth am arian. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ganfod y gwastraffu adnoddau amlwg: mae'n ymestyn i ganfod lle i wella'r defnydd o adnoddau, er enghraifft drwy well trefniadaeth. Mae'r broses hefyd yn cael ei harwain gan ystyriaethau o fateroliaeth ariannol - y swm o arian sydd dan sylw - a materoliaeth drwy natur.

Mae'r rhain yn ymestyn o risg cynhenid mwy o brosiectau arloesol neu uchelgeisiol i ddiddordeb y cyhoedd mewn amlygu amhriodoldeb.

6. Wrth ymgymryd â'r broses hon, mae gan fy staff a fi barch tuag at flaenoriaethau'r sector cyhoeddus fel y'u gwelir mewn prif ddatganiadau polisi, yn arbennig *Cymru: Gwlad Well a Chreu'r Cysylltiadau.* Rydw i hefyd yn ceisio sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y cyfle i gymryd tystiolaeth ar bob categori gwariant y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol amdani o gymryd un flwyddyn gyda blwyddyn arall, ac felly sicrhau craffu ar wasanaethau cyhoeddus yn gynhwysfawr.

## Gwaith ar y gweill

7. Dylid edrych ar fy nghynigion ar gyfer 2006-07 yng nghyd-destun y gwaith a wnaed yn barod a gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd neu sy'n mynd i ddechrau'n fuan. Mae crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd yn y papur cyfrif stoc y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried ochr yn ochr â'r memorandwm hwn tra bod yr archwiliadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd, ynghyd â'u cynnydd ar 28 Medi 2005, yn Nhabl 1 isod. Bydd y gwaith hwn sydd ar y gweill yn sail i sesiynau tystiolaeth arfaethedig y Pwyllgor hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

**Tabl 1: Archwiliadau gwerth am arian sydd ar waith ar hyn o bryd neu i ddechrau'n fuan**

| Archwiliad | Cynnydd (ym Medi 2005) |
|---|---|
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | Clirio ffeithiau |
| Cronfa Gwell Ysgolion (adnabuwyd cynt fel Grantiau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant mewn Swydd) | Clirio ffeithiau |
| Rheoli Ynni GIG | Adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Cefnogaeth i'r Prosiect LG | Adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Merlin: rhaglen wella TG a busnes newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru | Adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Triniaeth ddydd a llawfeddygaeth ddydd | Gwaith maes ar waith |
| Cyngor Celfyddydau Cymru: prosiectau cyfalaf | Gwaith maes ar waith |
| Hawl i dramwy yng nghefn gwlad | Gwaith maes ar waith |
| Rheoli absenoldeb salwch yn Llywodraeth Cynulliad Cymru | Gwaith maes ar waith |
| Tir Gofal (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) | Gwaith rhychwantu ar ddechrau |
| Gweithgarwch corfforol cynyddol a'i fuddiannau | Gwaith rhychwantu ar ddechrau |
| Rheoli clefyd cronig | Gwaith rhychwantu ar ddechrau |
| Cymorth Rhanbarthol Dewisol | I ddechrau cyn diwedd 2005-06 |
| Rhaglen Grantiau Digartrefedd a Phobl Heb Do Uwch eu Pennau | I ddechrau cyn diwedd 2005-06 |
| Cytundeb newydd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | I ddechrau cyn diwedd 2005-06 |
| Cyfuno a chydweithrediad sefydliadau addysg uwch a phellach | I ddechrau cyn diwedd 2005-06 |
| Caffael adeilad newydd Cynulliad Cenedlaethol i Gymru | I ddechrau cyn diwedd 2005-06 |
| Gwasanaethau i Blant | I ddechrau cyn diwedd 2005-06 |

## Gwaith ym meysydd eraill fy nghylch gwaith

8. Nid fy rhaglen archwilio gwerth am arian y bwriedir ei chyflwyno i'r Cynulliad a'i hystyried gan y Pwyllgor Archwilio, wrth gwrs, ydy fy holl waith. Mewn blynyddoedd a fu, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried o leiaf dau adroddiad y flwyddyn yn codi o fy ngwaith archwilio ariannol: fy adroddiad blynyddol ar gyllid y GIG yng Nghymru a fy adroddiad cyffredinol ar faterion o ddiddordeb ehangach sy'n codi o waith archwilio ariannol ar draws y maes archwilio i gyd. Er nad ydw i'n rhan o'r rhaglen archwilio gwerth am arian, byddaf yn parhau i lunio adroddiadau ar ganlyniadau gwaith archwilio ariannol yn 2006-07, fel y gall y Pwyllgor Archwilio ystyried y rhain. Yn achos cyllid y GIG yng Nghymru, byddaf yn defnyddio'r cyfle a geir o fewn fy rôl newydd fel archwilydd cyrff GIG lleol i gynnig lefel uwch o adroddiadau.

9. Mae maint fy ngwaith y tu hwnt i archwiliadau a fwriedir ar gyfer y Pwyllgor yn awr yn llawer ehangach nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn oherwydd bod y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn ychwanegu'n sylweddol at swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol. Ers 1 Ebrill 2005, rydw i wedi cael pwerau i benodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol a phwerau i gynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth leol. Ac, fel y nodwyd uchod, rydw i hefyd wedi ymgymryd ag archwilio cyrff GIG lleol yn flynyddol. archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio oedd yn gwneud hyn cyn hyn.

10. Er bod y pwerau newydd hyn yn fy ngalluogi i archwilio'r defnydd o adnoddau ar draws y sector cyhoeddus, nid ydw i'n bwriadu arwain y Pwyllgor i alw cyrff llywodraeth leol i gyfrif. Yn wir, mae llywodraeth leol y tu allan i bwerau'r Cynulliad i alw pobl fel tystion. Mae fy rhaglen ar gyfer gwaith llywodraeth leol yn benodol a welir yn Atodiad 2 felly ar wahân i'r rhaglen hon o waith i'r Pwyllgor.

11. Fodd bynnag, mae fy mhwerau newydd yn rhoi gallu dymunadwy i archwilio gwariant a chyflenwi ar draws systemau cyfan yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Er enghraifft, maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer edrych ar wasanaethau fel trafnidiaeth lle mae Llywodraeth y Cynulliad yn bartner yn hytrach nag yn brif ddarparydd. Felly, rydw i wedi cyflwyno cynigion, fel y rhai ar Drafnidiaeth Integredig, gyda'r bwriad o wneud defnydd llawn o'r pŵer hwn.

12. Fel gyda gwaith llywodraeth leol yn benodol, dylwn dynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod fy staff yn gwneud gwaith yn y GIG oherwydd ymestyn fy nghylch gwaith, gyda'r bwriad o helpu cyrff lleol i wella eu defnydd o adnoddau yn hytrach na ffurfio sylfaen i sesiynau tystiolaeth. Ariennir gwaith o'r fath gan ffioedd i'r cyrff dan sylw. Mae'r gwaith yn cynnwys adroddiadau i'r cyrff ar faterion o bryder lleol penodol fel asesu a ddylid amnewid system gyfrifiadurol arbennig. Mae hefyd yn ymestyn i raglen dreigl o gasglu data a dadansoddi sy'n cynnwys agweddau arbennig o fusnes GIG lleol, fel staffio ward a gwasanaethau patholeg a elwir yn Bortffolio Ysbyty Aciwt. Mae llawer o'r deunydd hwn yn canolbwyntio ar risgiau lleol a gall fod o ddiddordeb cyfyng i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, gellir ei ddefnyddio i hysbysu fy ngwaith gwerth am arian a byddaf, wrth gwrs, yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor lle mae negeseuon ehangach i'r sector cyhoeddus.

## Fy nghynigion personol

**13.** Mae Tabl 2 isod yn dangos y cynigion ar gyfer yr archwiliadau i ddechrau yn 2006-07, ynghyd â dewisiadau arall a phynciau yr ydw i'n eu cadw mewn golwg ar gyfer 2007-08 neu flynyddoedd wedyn. Mae hefyd yn dangos amcanion strategol Llywodraeth y Cynulliad fel y'u gwelir yn *Cymru: Gwlad Well* a *Chreu'r Cysylltiadau* y mae pob cynnig yn ymdrin ag ef.  Mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb byr o bob cynnig.

**14.** Bydd y cynigion yn darparu nifer tebyg o adroddiadau ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff perthynol i'r hyn a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Ond mewn sawl achos - yn arbennig lle mae Llywodraeth y Cynulliad yn bartner wrth gyflenwi gwasanaethau - bydd y cynnwys yn well oherwydd bydd fy ngwaith mewn llywodraeth leol a chyrff GIG lleol yn hysbysu'r archwiliadau gwaelodol.

**15.** Ni fydd gwaith ar rai o'r prosiectau hyn yn dechrau tan yn hwyr yn 2006-07 ac mae'n bosibl na fydd yr adroddiadau ar yr archwiliadau hyn yn cael eu cyhoeddi tan y flwyddyn ganlynol. Bwriad y drefn hon o weithio yw rhoi llif cyson o ddeunydd i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried.

**16.** Un agwedd o'm cynlluniau na ellir ei ddangos yn Nhabl 2 ydy fy mod yn awyddus i fod yn ymatebol i bryderon y Pwyllgor ar faterion sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Hefyd,  rydw i'n arbennig o awyddus i adeiladu mewn modd mwy hyblyg ac ymateb drwy ddilyn i fyny gwaith y Pwyllgor fel y nodwyd yn y papur cyfrif stoc. Un ffurf arbennig y gall hyn gymryd yw memoranda dilynol neu hyd yn oed adroddiadau byr ar gynnydd a wnaed gyda'r argymhellion fel yr oeddwn yn ei wneud ar gyfer Caffael Meddyginiaethau Gofal Cychwynnol. Posibilrwydd arall fyddai adroddiadau byr i brofi materion arbennig sy'n codi o archwilio ehangach.

**Tabl 2: Rhaglen arfaethedig ar gyfer archwilio gwerth am arian fesul maes cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru**

| **Allwedd** | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru: Blaenoriaethau Gwlad Well | | Egwyddorion a llinynnau Creu'r Cysylltiadau | |
| H | Helpu mwy o bobl i gael swyddi | R | Gwasanaethau ymatebol a hygyrch |
| I | Gwella iechyd | J | Uno a symleiddio'r gwasanaethau cyhoeddus |
| D | Datblygu cymunedau cadarn a diogel | B | Gwell defnydd o adnoddau |
| C | Creu gwell swyddi a sgiliau | E | Gweithio'n agos gyda'r gweithlu |
| | | S | Cefnogi'r newidiadau |

| | *Cyllideb fynegol 2006-07 £m* | *Blaenoriaethau Gwlad Well* | *Cysylltiadau Creu'r Cysylltiadau* |
|---|---|---|---|
| **ARCHWILIADAU THEMATIG AR DRAWS Y SECTOR CYHOEDDUS YNG NGHYMRU** | (am: heb ei gyfyngu i un portffolio) | | |
| ***Un:*** | | | |
| **Datblygiad cynaliadwy: gwneud penderfyniadau busnes** | | D | B |
| *Dewisiadau eraill a phynciau dan sylw ar gyfer y dyfodol:* | | | |
| *Cynllunio brys* | | D | J, B |
| *Gwasanaethau i'r henoed* | | I | R, B |
| *Cynllunio defnydd o dir* | | H, C | B |
| **IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL** | 5,109 | | |
| ***Dau:*** | | | |
| **Hysbysu Iechyd a Hysbysu Gofal Cymdeithasol** | | I | J, B |
| **Haint a Geir mewn Ysbyty** | | I | B |
| *Dewisiadau eraill a phynciau dan sylw ar gyfer y dyfodol:* | | | |
| *Caffael GIG (cyfarpar a chyflenwadau cyffredinol)* | | I | B |
| *Agenda dros Newid a moderneiddio'r gwasanaethau* | | I | E, B |
| *Adeiladau Ysbytai: achosion busnes a rheoli prosiectau* | | I | B |
| *Y Cynllun Ail Gynnig* | | I | B |
| *Deintyddion (ar gyfer 07-08)* | | I | E, B |
| *Gwastraff clinigol* | | I | B |
| **AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD** | 541 | | |
| ***Un:*** | | | |
| **Rheoli risg o lifogydd** | | D | J, B |
| *Dewisiadau eraill a phynciau dan sylw ar gyfer y dyfodol:* | | | |
| *Datblygu busnes ffermio yng Nghymru* | | D, C | R, B |
| *Dilyniant rheoli gwastraff (ar gyfer 06-07, gall fod yn fwy priodol i'r rhaglen llywodraeth leol yn hytrach na'r Pwyllgor Archwilio)* | | D, I | B |
| **ADDYSG A HYFFORDDIANT** | 1,480 | | |
| ***Un:*** | | | |
| **Buddsoddiad cyfalafol mewn ysgolion** | | C | J. B |
| *Dewisiadau eraill a phynciau dan sylw ar gyfer y dyfodol* | | | |
| *Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon* | | C | E, S, B |
| *Gwella ymddygiad a phresenoldeb yn yr ysgolion (mater amseru: ymgynghoriad y Cynulliad ar orchmynion magu plant)* | | C, D, H, I | R, B |
| *Mynediad i'r anabl i sefydliadau addysgol (yn ddibynnol ar gwblhau adolygiad y Cyngor Cenedlaethol)* | | C | R, B |

| | *Cyllideb fynegol 2006-07 £m* | *Blaenoriaethau Gwlad Well* | *Cysylltiadau Creu'r Cysylltiadau* |
|---|---|---|---|
| **DATBLYGIAD ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH** | 1,516 | | |
| ***Un:*** | | | |
| **Trafnidiaeth Integredig** | | H, C | R, B |
| *Dewisiadau eraill a phynciau dan sylw ar gyfer y dyfodol* | | | |
| *Rôl y sector cyhoeddus yn darparu a rheoli adeiladau i fusnesau* | | H, C | J, B |
| *Techniums (adeilad i fusnesau gyda chefnogaeth ddwys)* | | H, C | J, B |
| **CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO** | 490 | | |
| ***Un:*** | | | |
| **Cymunedau'n Gyntaf** | | D | B |
| *Dewisiadau eraill a phynciau dan sylw ar gyfer y dyfodol:* | | | |
| *Delio â chamddefnyddio sylweddau* | | D, I | R, B |
| *Y Cynllun Cymorth Prynu (problem amseru o gofio am adolygiad y Cynulliad o dai pris isel)* | | D | R, B |
| *Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau yn y Gymuned* | | D | B |
| **DIWYLLIANT, CHWARAEON A'R IAITH GYMRAEG** | 152 | | |
| ***Un:*** | | | |
| **Canolfan Mileniwm Cymru** | | | B |
| *Dewisiadau eraill a phynciau dan sylw ar gyfer y dyfodol:* | | | |
| *Iaith Pawb* | | D | B |
| *Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Rheoli casgliadau* | | D | B |
| *Mwyhau buddiannau prif ddigwyddiadau chwaraeon* | | H, I | J, B |
| **GWEINYDDU'R CYNULLIAD** | 180 (gweinyddu canolog yn unig) | | |
| ***Un:*** | | | |
| **Hyfedredd Masnachol** | | | E, B |
| *Dewisiadau eraill a phynciau dan sylw ar gyfer y dyfodol:* | | | |
| *Ymgorffori'r WDA, WTB, ELWa a'r WLB i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru* | | | J, B |
| *Strategaeth adleoli Llywodraeth Cynulliad Cymru* | | | B |

**17.** Ar ôl i mi dderbyn barn y Pwyllgor, bwriadaf lunio rhaglen derfynol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor cyn 31 Mawrth 2006. Mae'n bwysig, wrth gwrs, fy mod o hyd yn gallu adrodd yn briodol ar faterion gwerth am arian wrth iddynt godi, p'un ai yw'r pynciau sydd o dan sylw yn ymddangos yn y rhaglen waith hon. Gall atebolrwydd a hyblygrwydd o'r fath olygu y diwygir neu hyd yn oed y gohirir rhai o'r archwiliadau a gynlluniwyd.

**18.** Estynnaf wahoddiad i'r Pwyllgor roi arwydd i mi o'r pynciau sydd o brif ddiddordeb i Aelodau ac i awgrymu unrhyw bynciau eraill nad sydd wedi'u cynnwys ymhlith y rhai a restrwyd.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**29 Medi 2005**

# Atodiad 1: Amlinelliadau o gynigion astudiaethau gwerth am arian

## Archwiliadau thematig ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

***Ar gyfer 2006-07***

### Datblygiad cynaliadwy: gwneud penderfyniadau busnes

Mae dyletswydd statudol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i hybu datblygiad cynaliadwy: datblygiad sy'n cyflawni gofynion y presennol heb gyfaddawdu cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ym mhob peth y mae'r Cynulliad yn ei wneud a dylanwadu ar sefydliadau eraill i wneud yr un peth. Mae *Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy* newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004-07) wedi nodi y gall y Cynulliad wneud gwahaniaeth drwy "Gwneud i'n harian siarad": sicrhau bod gwariant y Cynulliad a gwariant cyhoeddus arall yn canolbwyntio ar gyflenwi datblygiad cynaliadwy. Ystyrir y Cynulliad yn gyffredinol fel un sy'n arwain o safbwynt trefniadau rheolaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy er bod rhywfaint o bryder am gymaint sydd wedi newid o ganlyniad i ymdrechion y Cynulliad. Mae'r Cynulliad, fel cyrff eraill, beth bynnag y sector, yn wynebu rhwystrau i wireddu ei fwriadau, fel y broblem o sut i bwyso buddiannau allanol yn erbyn costau mewnol.

Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio i ba raddau a pha mor drylwyr y mae'r Cynulliad yn ystyried datblygiad cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau busnes. Un ffocws arbennig felly fyddai adolygiad o sut mae datblygiad cynaliadwy'n cael ei ystyried mewn achosion busnes. Ynghyd â chanfod diffygion wrth ystyried materion cynaladwyedd a'r rhwystrau i gynnydd, byddai'r astudiaeth yn ceisio canfod dulliau posibl o oresgyn rhwystrau o'r fath drwy, er enghraifft, amlygu ymagweddau arloesol da. Byddai'r archwiliad yn cyfannu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatblygiad cynaliadwy mewn llywodraeth leol sydd ar fin ymddangos. Gallai hefyd arwain at gyfres o archwiliadau ar ba mor dda y mae datblygiad cynaliadwy'n cael ei ystyried mewn gwahanol agweddau o fusnes cyhoeddus.

***Dewisiadau eraill ac astudiaethau ar gyfer 2007-08 neu ar gyfer y dyfodol***

### Cynllunio rhag argyfyngau

Cyhoeddwyd arweiniad manwl GIG ar gynllunio rhag argyfyngau ym 1998. Diweddarwyd hwn yn dilyn ymosodiadau 11 Medi 2001. Mae ymosodiadau terfysgwyr diweddar yn Llundain a'r bygythiad o bandemig ffliw yn golygu bod angen bod yn barod ar gyfer digwyddiadau ar raddfa wahanol ac o natur gwahanol. Byddai'r archwiliad hwn yn canolbwyntio ar weld a oes gan GIG Cymru'r medr a'r gallu i ymateb i drychinebau. Yn benodol, byddai'n archwilio a ydy cynlluniau rhag trychinebau'n gyfoes, yn cydymffurfio gyda'r arweiniad diweddaraf ac wedi'u profi. Byddai'n ystyried a ydy cyrff GIG yn gweithio gyda phrif bartneriaid eraill - awdurdodau lleol, y gwasanaeth tân a'r heddlu - i baratoi a phrofi cynlluniau rhag trychinebau ac a oes trefniadau cyfathrebu effeithiol ar gael rhwng y prif bartneriaid a'r cyhoedd ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud os

bydd digwyddiad, gan gynnwys lleihau niwed. Byddai hefyd yn asesu a ydy cyrff GIG yn barod ar gyfer effaith tymor hir y byddai trychineb yn ei gael ar iechyd cymunedau lleol a'r angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dilyn hyn. Byddai'r archwiliad yn ystyried gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn y maes hwn.

## Gwasanaethau ar gyfer yr henoed

Mae ugain y cant o boblogaeth Cymru'n bensiynwyr; y gyfran uchaf yn y Deyrnas Unedig. Roedd y Cynulliad yn lansio ei Strategaeth ddeng mlynedd i Bobl Hŷn ym mis Ionawr 2003, y strategaeth gyntaf o'i bath yn y DU. Dechreuwyd ei gweithredu ym mis Ebrill 2003 ac mae wedi'i seilio ar gydweithrediad rhwng y Cynulliad, llywodraeth leol, y GIG a sectorau eraill er mwyn sicrhau ymagwedd cydlynol at bobl hŷn a chynnwys pobl hŷn yn weithredol wrth benderfynu ar sut i drefnu gwasanaethau a'u darparu. Cefnogwyd y strategaeth gan gyfraniad o £10 miliwn dros y tair blynedd gyntaf a phenodi Dirprwy Weinidog dros Bobl Hŷn. Cyflwynwyd cynlluniau hefyd i sefydlu Comisiynydd Pobl Hŷn dros Gymru yn debyg i'r Comisiynydd Plant presennol.

Byddai'r astudiaeth hon yn mabwysiadu ymagwedd tebyg i astudiaeth 2005-06 ar Wasanaethau Plant. Byddai'n archwilio gweithredu'r strategaeth i bobl hŷn mewn meysydd penodol fel e-lywodraeth, gofal, hyblygrwydd cynyddol yn y gweithle, trafnidiaeth a hybu iechyd. Byddai hefyd yn archwilio i ba raddau y mae cydweithio rhwng sefydliadau a sectorau wedi llwyddo wrth gyflenwi gwasanaethau effeithiol i'r henoed gan osgoi dyblygu a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried wrth ffurfioli polisi. Y nod fyddai canfod gwersi ar gyfer diwygio'r sector cyhoeddus a gwella gweithredu polisïau trawstorri yng Nghymru drwy, er enghraifft, fentrau, rhannu cyllidebau, osgoi dyblygu, synergedd a gwelliannau strwythurol.

## Cynllunio'r defnydd o dir

Yn 2002, roedd LICC yn lansio'r rhaglen 'Cynllunio: Cyflenwi i Gymru' ac yn 2004, roedd yn cyhoeddi *Pobl, Mannau, Dyfodol - Cynllun Gofodol Cymru.* Roedd hwn yn amlinellu polisïau'r Cynulliad ar gyfer delio â'r sialensiau a'r cyfleoedd y mae amrywiol rannau o Gymru'n eu hwynebu o safbwynt iechyd, datblygiad economaidd a thrafnidiaeth. Bwriad Llywodraeth y Cynulliad ydy bod y Cynllun yn gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol ac i Gynlluniau Datblygiad Lleol (LDPs) ei adlewyrchu. Yn 2005, roedd y Cynulliad hefyd yn cyhoeddi fframwaith strategol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd oedd yn egluro'r cysylltiad rhwng cynllunio effeithiol ac adfywio economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Fodd bynnag, mae'r system gynllunio'n newid fel, yn unol â Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004), mae symudiad o Gynlluniau Datblygu Unedol (UDPs) i LDPs. Dylai hyn ddechrau yn ystod hydref 2006 ond mae trefniadau trosiannol sy'n caniatáu i rai Awdurdodau Cynllunio Lleol barhau i ddefnyddio UDPs.

Mae Aelodau'r Cynulliad wedi amau medr y system i gyflenwi cymunedau cynaliadwy, amrywiol a ffyniannus y tu allan i ffiniau cul coridor yr M4. Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio cynnydd wrth weithredu'r ddeddfwriaeth, yn ystyried yn benodol effeithiolrwydd LDPs fel gyrwyr ar gyfer newid economaidd, cymdeithasol a diwylliannol positif.

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

***Ar gyfer 2006-07***

## Hysbysu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Hysbysu Gofal Iechyd ydy strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi moderneiddio'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru drwy ddefnyddio gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu dros y ddeng mlynedd nesaf. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi darparu £88m am y tair blynedd nesaf i gefnogi gweithredu a sefydlu tîm prosiect penodedig. Mae hon yn rhaglen uchelgeisiol ac mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â hi, yn arbennig o safbwynt gweithredu systemau newydd. Byddai'r archwiliad yn edrych ar reolaeth gyffredinol y rhaglen, yn arbennig rheoli'r prif risgiau. Byddai'n asesu medr trefniadol, gallu ac arweinyddiaeth, codi ymwybyddiaeth a hyfforddi staff - mae pob un o'r rhain yn angenrheidiol i sicrhau gweithredu effeithiol. Byddai hefyd yn archwilio cryfder fframweithiau i sicrhau gwerth am arian swyddogaethau i'w cyflenwi drwy gynlluniau PFI/PPP, a sut mae buddiannau'r rhaglen yn cael eu gwireddu.

Elfen bwysig arall o'r astudiaeth fyddai archwilio ansawdd presennol gwybodaeth sydd wedi'i seilio ar ddata clinigol. Mae gwybodaeth o'r fath yn hanfodol i reolaeth dda gwasanaethau. Mae gwaith archwilio lleol mewn ymddiriedolaethau GIG yn nodi bod llawer o hyn o ansawdd gwael. Mae hyn yn gyntaf oherwydd y modd gwael y mae'n cael ei gipio'n gyntaf: mae ymddiriedolaethau'n defnyddio gormod o godau 'dal popeth' sy'n cynrychioli arwyddion a symptomau yn hytrach na diagnosisau. Yn ail, mae'r drefn glanhau a weithredir gan Atebion Iechyd Cymru'n ymddangos fel petai'n gwneud i'r data a gyflenwir gan ymddiriedolaethau'n llai defnyddiol i'r ymddiriedolaethau, yn hytrach na'i wella. O ganlyniad, yn hytrach na defnyddio'r data a lanhawyd a ddarperir gan Atebion Iechyd Cymru, mae ymddiriedolaethau'n gwario rhyw £300,000 ar ddata a meincnodi o ffynonellau masnachol. Hefyd, mae'r data a ddefnyddir yn dueddol o fod yn rhyw ddwy oed. Byddai'r gwaith hwn felly'n ceisio canfod dulliau o wella data ar sail glinigol GIG Cymru er mwyn gallu ystyried hwn wrth hysbysu'r prosiect iechyd a gofal cymdeithasol.

## Haint a Geir mewn Ysbytai

Mae gwaith ymchwil gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yn nodi bod gormod o bobl mewn gwelyau ynghyd â diffyg staff ac arferion glanweithdra gwael, yn achosi i un o bob deg claf yn Lloegr gael heintiau pan fyddan nhw mewn ysbyty. Mae rhai o'r heintiau'n gynyddol gyffredin ac yn achosi marwolaeth. Er enghraifft, mae marwolaeth a achosir gan *methicillin-resistant staphylococcus aureus* (MRSA) wedi codi o ffactor o 16 rhwng 1993 a 2002. Mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol wedi llunio adroddiadau ar heintiau a geir mewn ysbytai yn Lloegr ym 1999 a 2004, yn nodi graddfa a chost y broblem a'r cynnydd cyfyngedig a wnaed i ddelio ag ef.

Ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd newydd yng Nghymru, mae'r Cynulliad wedi sefydlu gofynion a systemau arolygiaeth ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ac mae'n rhoi cefnogaeth arall ar gyfer rheoli heintiau. Byddai'r Astudiaeth hon yn archwilio'r sefyllfa yng Nghymru ac yn tynnu ar adroddiad C&AG's i lunio cymariaethau gyda Lloegr. Yn benodol, byddai'n anelu at amcangyfrif cost haint a geir mewn ysbyty yng Nghymru ac yn asesu a oes digon o wrthfesurau'n cael eu cymryd gan gynnwys ymagwedd cyffredinol diogel i drwygyrch ysbytai. Byddai'n defnyddio data a ddarperir gan Bortffolio Ysbytai Aciwt, yn arbennig rheolwyr wardiau a phynciau patholeg. Byddai hefyd yn dilyn elfennau astudiaeth glanhau ysbytai AGW.

## Caffaeliad GIG (cyfarpar a chyflenwadau cyffredinol)

Mae ymddiriedolaethau GIG yn gwario rhyw £850 miliwn y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau. O hyn, mae tua £150 miliwn yn cael ei weinyddu drwy Gyflenwadau Iechyd Cymru (WHS)-corff caffael canolog GIG Cymru. Mae WHS yn ceisio darparu gwell gwerth drwy gronni pŵer prynu a defnyddio'r arfer caffael gorau. Drwy ymateb i adroddiad Gwerth Gorau Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd yn pwysleisio'r angen am foderneiddio caffael y sector cyhoeddus a'r potensial am arbedion sylweddol drwy well cydweithrediad a gwell arfer caffael, roedd Bwrdd Caffael GIG yn comisiynu Strategaeth Gaffael Cymru gyfan yn 2003. Roedd y Strategaeth hon yn gosod targed o arbediad o 3 y cant y flwyddyn drwy gaffael, gan adlewyrchu'r targed a osodwyd i'r GIG yn Lloegr. Roedd hefyd yn sefydlu gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth caffael sy'n rhan hanfodol o swyddogaeth reoli'r GIG wedi'i seilio ar gydweithrediad effeithiol a chyflwyno technoleg fodern ac sy'n dylanwadu ar 10 y cant o wariant nad sy'n gyflogau, yn erbyn cyfartaledd o 78 y cant yn 2003.

Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio cynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Strategaeth Gaffael. Byddai'n amlygu unrhyw arbedion sydd wedi'u gwneud ac yn canfod y cwmpas ar gyfer gwelliant pellach ynghyd â'r rhwystrau rhag cynnydd. Ymhlith y materion a ystyriwyd byddai cymhwyso dulliau e-gaffael a'r cydbwysedd rhwng sicrhau arbedion ariannol uniongyrchol a hybu caffaeliad cynaliadwy. Byddai'r astudiaeth yn cael ei llunio a'i threfnu i gyfannu'r rhaglen barhaus o wiriadau ffitrwydd caffael y sector cyhoeddus a gynhelir gan Gwerth Cymru a byddai'n adeiladu ar waith blaenorol a wnaed gan y Comisiwn Archwilio yn ei adroddiad 2002 ar gaffael a chyflenwi GIG yng Nghymru.

## Agenda dros Newid a moderneiddio'r gwasanaeth

Pwrpas yr Agenda dros Newid ydy cytgordio'r amodau gwasanaeth ar gyfer staff GIG ac, ar yr un pryd, helpu i foderneiddio'r gwasanaeth drwy wneud y gweithlu'n fwy effeithiol ac effeithlon. Mae'n gymwys i tua 80,000 o staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yng Nghymru. Yr eithriadau ydy meddygon a deintyddion ac uwch reolwyr. Gan fod costau staff yn cyfrif am ryw 75 y cant o wariant y GIG, mae sicrhau bod hyn yn cael ei ddefnyddio'n dda'n bwysig i weithredu a chadw'r Agenda dros Newid ar y llwybr. Roedd pob Ymddiriedolaeth yn dechrau symud staff ar y system gyflog newydd ym mis Rhagfyr 2004 gyda'r disgwyliad y bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn mis Hydref 2005. Dywedwyd yn ddiweddar bod llai na chwarter o'r ymddiriedolaethau yn Lloegr wedi cyflawni eu targedau gweithredu. Mae'r sefyllfa yng Nghymru'n ymddangos yn debyg: ym mis Mehefin 2005, dywedodd yr Uned Moderneiddio Cyflogau bod 40 y cant o staff yng Nghymru wedi'u cyfateb i'r proffiliau cyflog newydd.

Mae'r profiad o weithredu cytundeb yr ymgynghorwyr yng Nghymru wedi dangos bod 30 y cant o ymddiriedolaethau â phrosesau amheus ar gyfer gweithredu'r math hwn o newid. Un o'r prif risgiau ydy y bydd ceisio cyflawni'r targedau ar gyfer gweithredu'r Agenda dros Newid yn mynd yn broses bocs ticio heb sylweddoli'r cyfleoedd ar gyfer moderneiddio. Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio a oes cyfleoedd yn cael eu colli a'r bwriad fydd helpu i sicrhau eu bod yn elwa o fuddiannau'r Agenda dros Newid.

## Adeiladau Ysbytai: achosion busnes a rheoli prosiectau

Roedd *Cymru: Gwlad Well* yn cynnig cynllun i ddarparu £550 miliwn ar gyfer adeiladau newydd ac roedd *Cynllun Oes* yn gosod nod o newid ysbytai i'w gwneud yn fwy defnyddiol i'r GIG modern. Mae cael gwerth da o brosiectau adeiladu'n gofyn am ddadansoddi a chynllunio manwl. Mae llawer yn dibynnu ar y dadansoddiad strategol o pam, ble a sut y dylid adeiladu cyfleusterau ynghyd â'r dewis o ddull ariannu. A rhaid ystyried yn llawn yr amcan o osgoi costau cynnal a chadw. Er enghraifft, un o'r risgiau i werth am arian sy'n codi o gynlluniau mentrau ariannu preifat lle mae cytundebau wedi'u seilio ar gyfaint a gofod yw nad ydy'r defnydd gostyngol yn esgor ar unrhyw fudd ariannol ac felly'n creu anghymhelliad i resymoli'r ystâd.

Byddai'r astudiaeth hon yn cynnwys archwiliad o ansawdd achosion busnes adeiladau ysbytai diweddar a phresennol a chynlluniau prosiectau dilynol. Byddai'r prif ffocws ar gywirdeb manwl y dadansoddiad strategol o angen a lleoliad adeiladau newydd ond byddai'r astudiaeth hefyd yn ystyried cywirdeb manwl penderfyniadau ar ffynonellau ariannu. Ar gyfer prosiectau a gwblhawyd, byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor dda roedd y GIG a chontractwyr yn rheoli'r cyfnod adeiladu a pha mor dda mae'r prosiectau'n perfformio yn erbyn meini prawf cyflenwi gwasanaethau.

## Y Cynllun Ail Gynnig

Mae *Cynllun Oes* yn ceisio dileu amseroedd aros hir gyda chleifion yn cael eu trin yn y lle cywir gan y person cywir ac ar yr amser cywir. Mae gan y Cynllun Ail Gynnig rôl hanfodol wrth gyflenwi hyn ar gyfer amseroedd aros cleifion preswyl ac achosion dydd. Bu'r Cynllun yn gweithredu ers mis Ebrill 2004 ac mae'n cynnig dewis o driniaeth gan ddarparydd arall i gleifion ar y rhestr aros cleifion preswyl/achosion dydd, os ydyn nhw'n mynd i dorri targed rhestr aros. Ar ddiwedd mis Mawrth 2005, roedd cyfanswm o 840 claf yn aros dros 12 mis o gymharu ag 8,457 ym mis Mawrth 2004 ac 16 yn aros dros 18 mis o gymharu â 1,401 ym mis Mawrth 2004.

Buddsoddwyd llawer o arian mewn delio ag amseroedd aros hir ar gyfer cleifion preswyl ac achosion dydd:  buddsoddwyd £5 miliwn i ddechrau yn y Cynllun Ail Gynnig ar ben yr arian iechyd presennol ac ychwanegwyd £12 miliwn i sefydlu a rhedeg un tîm comisiynu'r Ail Gynnig i warantu'r amseroedd targed o 18 mis. Dyrannwyd £25 miliwn ychwanegol ar gyfer 2004-05 i gyflawni'r targed 12 mis. Ar gyfer 2005-06, sicrhawyd dyraniad o £24 miliwn i gyflenwi targed cleifion allanol a chleifion preswyl. Byddai'r astudiaeth hon yn edrych ar effaith polisïau'r Cynulliad i gyflawni gostyngiad mewn amseroedd aros cleifion preswyl/achosion dydd gan ganolbwyntio'n benodol ar y Cynllun Ail Gynnig a buddiannau cael un corff comisiynu ar gyfer y Cynllun. Byddai'n ystyried barn y cleifion, yn arbennig am faterion fel yr angen am deithio i gael triniaeth.

## Deintyddion

Mae prinder deintyddion GIG mewn sawl rhan o Gymru. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi arian ers 1995 yn benodol i ddenu mwy o ddeintyddion, ond mae'r problemau'n parhau, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion a Gwynedd.  Ym mis Medi 2004, roedd canran yr oedolion oedd wedi cofrestru gyda deintydd i gael triniaeth GIG yng Nghymru yn 46 y cant, a phlant yn 59 y cant gyda'r ddwy gyfradd yn lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu polisïau i ddiwygio gwasanaethau gofal deintyddol cychwynnol ar y cyd gyda llywodraeth y DU a bydd y trefniadau cytundebol deintyddol newydd yn dechrau yng Nghymru ym mis Ebrill 2006 ynghyd â system dalu newydd i gleifion. Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi cymryd drosodd y gyllideb o £75 miliwn i ddarparu'r cyllid a chomisiynu gwasanaethau deintyddol GIG lleol. Byddai'r astudiaeth hon yn gosod allan y risgiau fydd yn rhaid eu rheoli os am gael cynnydd cyffredinol - nid yn unig yn

sicrhau mynediad priodol i wasanaethau deintyddol GIG ond hefyd i sicrhau gwasanaeth o ansawdd da lle mae mynediad. Bydd elfen o'r archwiliad hwn felly yn adolygiad o ansawdd gofal deintyddol a gall hyn gynnwys arolwg o gleifion.

## Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

***Ar gyfer 2006-07***

### Rheoli risg o lifogydd

Oherwydd hinsawdd a daearyddiaeth, mae tueddiad cryf yng Nghymru i gael llifogydd ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o ddigwyddiadau sydd wedi achosi niwed helaeth. Mae llifogydd mawr yn cael effaith anferth ar ansawdd bywyd ac mae'n debyg mai hyn ydy'r trychineb naturiol mwyaf sy'n wynebu Cymru. Mae rheoli risgiau rhag llifogydd hefyd yn gofyn am lawer iawn o weithio cysylltiedig yr oedd y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ddisgrifio yn ei adroddiad ar amddiffyn rhag llifogydd, fel "her anferthol". Mae'r system ar gyfer rheoli rhag llifogydd wedi newid yn ddiweddar gydag un corff Rhanbarthol yn arolygu pob agwedd o wneud penderfyniadau dan arweiniad polisi Llywodraeth y Cynulliad. Byddai'r Cynulliad yn croesawu asesiad cynnar (rhan olaf 06-07) o'r trefniadau newydd, yn benodol, cymharu'r system i'r un yn Lloegr.

Mae'r astudiaeth hon yn ffitio gyda themâu Creu'r Cysylltiadau o ail-lunio gwasanaethau a chydweithio. Mae hefyd yn ffitio gydag agenda Datblygiad Cynaliadwy'r Cynulliad - mae'r nifer cynyddol o lifogydd yn aml wedi'u cysylltu â newid mewn hinsawdd. Gallai rheoli risg aneffeithiol a chydweithio annigonol gyda budd-ddeiliaid o fewn cyd-destun trefn weinyddol ac ariannu newydd arwain at gostau cynyddol ac aflonyddu ar wasanaethau eraill wrth ddelio ag argyfyngau.

***Dewisiadau eraill ac astudiaethau ar gyfer 2007-08 neu ar gyfer y dyfodol***

### Datblygu Busnes Ffermio

Mae'r cynllun Cyswllt Ffermio'n ganolog i'r modd y mae'r Cynulliad yn ceisio gwella cynaladwyedd tymor hir ffermydd. Ei nod ydy gwella perfformiad fferm a mwyhau'r incwm. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael cymhorthdal llawn gan roi Cynllun Datblygu Busnes Ffermio i ffermwyr drwy ddefnyddio ymgynghorwyr achrededig. Mae'r cynlluniau'n agor drws i holl wasanaethau Cyswllt Ffermio gan gynnwys Grant Gwella Ffermydd a'r Grant Mentrau Fferm. Mae ymgynghorwyr yn ymchwilio i gynlluniau ffermwyr ar gyfer gwella incwm ffermio gan gynnwys cynlluniau amgylcheddol a chyfleoedd incwm y tu hwnt i'r fferm. Maen nhw hefyd yn ymchwilio i hyfforddiant ac arall gyfeirio ac yn cynnig cyngor proffesiynol ac argymhellion ar wariant cyfalaf arfaethedig, gan gynnwys ceisiadau posibl am grantiau. Mae Cyswllt Ffermio yn cael ei redeg fel gwasanaeth partneriaeth cyhoeddus-preifat ac o'r herwydd gwelir ef gan y Cynulliad fel ymagwedd arloesol i feithrin entrepreneuriaeth ar ffermydd.

Bydd yr astudiaeth yn ystyried perthnasoedd rhwng asiantaethau partneriaeth, lefel yr arbenigedd a gynigir gan ymgynghorwyr, i ba raddau y mae cynigion a welir mewn cynlluniau datblygu'n cael eu gweithredu, effaith unrhyw newidiadau mewn arfer ar refeniw'r fferm, cynaladwyedd, ansawdd cynnyrch y fferm a lefel yr arall gyfeirio - pob un yn fwriadau a nodwyd yn y cynllun. Meysydd eraill i'w hymchwilio ydy patrwm costau gweithredu a gweinyddu'r cynllun. Gall yr astudiaeth hefyd ystyried effaith adroddiad 'aros ac adolygu' y Cynulliad ar arfer, er enghraifft, a ydy Cynlluniau Datblygu Busnes Ffermio a chymeriant yr opsiynau hyfforddi sydd ar gael, wedi gwella.

### Dilyniant rheoli gwastraff

Ym mis Tachwedd 2004, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar *Reoleiddio rheoli gwastraff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.* Roedd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymchwilio i'r mater hwn ac ym mis Chwefror 2005, yn cyhoeddi ei adroddiad ei hun gan gynnwys deuddeg argymhelliad cyffredin. Hefyd, yn ystod y mis hwnnw, roedd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru'n cyhoeddi adroddiad ar berfformiad awdurdodau lleol wrth gyflawni targedau ar gyfer ailgylchu. Ac, ym mis Awst 2005, roedd Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y Cynulliad, wedi cael tystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac eraill, yn cyhoeddi adroddiad ar sail ei ymchwiliad i gyflawni targedau tirlenwi ac ailgylchu. Byddai astudiaeth ddilynol yn asesu i ba raddau roedd Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi gweithredu argymhellion yr adroddiadau hyn, yn benodol y rhai'n ymwneud ag ailgylchu, compostio, dargyfeirio gwastraff o dirlenwi a gweithredu ac effaith rheoliadau newydd ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus. Byddai cyflawni hyn yn 2006 yn cynnig yr amseru gorau i hysbysu datblygiadau llywodraeth leol yn y maes hwn.

## Addysg a Hyfforddiant

***Ar gyfer 2006-07***

### Buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion

Mae'r Grant Gwella Adeiladau Ysgolion, sydd i gynyddu £36.5m yn 2002-03 i £74.7m yn 2007-08, wedi'i gysylltu i'r targed GwellCymru.com y dylai pob ysgol yng Nghymru fod mewn cyflwr ffisegol da erbyn 2010. Mae'r arian yn cael ei ddarparu gyda'r bwriad y bydd Awdurdodau lleol yn defnyddio'r grant i ariannu adeiladu ysgolion a chynlluniau ar gyfer gwelliannau. Roedd Awdurdodau Lleol i fod i lunio cynlluniau rheoli asedau yn 2004.

Byddai'r astudiaeth hon yn edrych ar sut roedd y Grant yn cael ei ddefnyddio ac yn cymharu gwariant â meysydd blaenoriaeth angen. Byddai'n defnyddio pwerau estynedig newydd yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn ystyried nid yn unig pa mor dda mae'r Cynulliad yn monitro ac yn darparu arweiniad ond hefyd sut mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r arian. Byddai felly'n ystyried cynlluniau rheoli asedau ehangach Cynghorau ar gyfer ystyried potensial ehangach defnydd y gymuned o adeiladau ysgolion. Hefyd byddai'n ystyried y defnydd o amrywiaeth o ffynonellau arian i ddelio â'r mater o adeiladau ysgolion a gallai ymestyn i gynnwys materion mynediad Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn ysgolion.

### Y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon

Roedd Gweinidogion yng Nghymru a Lloegr a'r mwyafrif o'r undebau athrawon yn arwyddo'r Cytundeb ar Lwyth Gwaith Athrawon yn 2002. Mae'r Cytundeb yn sicrhau gostyngiad yn llwyth gwaith athrawon: lleihau'r gwaith gweinyddol y maen nhw'n ei wneud, cyfyngu ar y cyflenwi maen nhw'n ei gynnig i gydweithwyr a rhoi amser digyswllt gwarantedig o fewn amserlen y dydd. Mae'r mesurau hyn yn cael eu cyflwyno mewn tri cham blynyddol gan ddechrau ym mis Medi 2003. Mae'n rhaid i ysgolion ail fodelu eu gweithlu i weithredu'r Cytundeb ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol yng Nghymru am gyhoeddi arweiniad a sicrhau rheoliadau i AALlau i weithredu'r

newidiadau hyn. Roedd y Cynulliad yn neilltuo rhyw £33 miliwn i gefnogi'r Cytundeb yn 2004-05, a £99 miliwn arall dros y tair blynedd i 2007-08. Byddai'r astudiaeth hon yn asesu effeithiolrwydd y Cytundeb. Ni fyddai'n dechrau tan hydref 2006 er mwyn caniatáu i'r trefniadau gael amser i setlo.

## *Dewisiadau eraill ac astudiaethau ar gyfer 2007-08 neu ar gyfer y dyfodol*

### Gwella ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion

Roedd absenoldeb yn 9.5 y cant yn ysgolion uwchradd Cymru yn 2003-04, o gymharu ag 8.1 y cant mewn ysgolion a gynhelir yn Lloegr. Mae'n rhaid i staff ysgolion dreulio amser yn mynd ar ôl rhieni i ofyn lle mae'r disgyblion ac mae'n rhaid i athrawon dreulio amser gyda phlant sy'n dychwelyd i'w cynorthwyo i ddal i fyny â'r gwaith - mae hyn yn amharu ar addysg disgyblion eraill. Mae ymddygiad gwael hefyd yn amharu ar ddysgu ac mae'n achosi straen sylweddol i athrawon gan arwain at golli gwaith oherwydd salwch a hefyd ymddiswyddiadau. Mae mesurau i ddelio ag ymddygiad gwael hefyd yn straen ar adnoddau, er enghraifft, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ariannu darpariaeth amgen i ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd o ysgolion. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio delio â'r problemau hyn drwy sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Bresenoldeb oedd yn llunio cynllun gweithredu ym mis Chwefror 2003. Roedd hwn yn cynnig camau i'w cwblhau erbyn diwedd 2003.

Byddai'r astudiaeth hon yn asesu pa fesurau sy'n cael eu cymryd i wella presenoldeb ac ymddygiad a'u llwyddiant perthynol gan amlygu meysydd arfer da. Cyfyngiad amser posibl yw bod y Cynulliad yn awr yn ymgynghori ar orchmynion a chytundebau rhieni o fis Ionawr 2006 fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar ei bolisi *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*.

### Mynediad i'r anabl i sefydliadau addysgol

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) yn ei gwneud hi'n anghyfreithiol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys sefydliadau addysgol i wahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Felly, mae'n ddyletswydd ar sefydliadau addysgol, yn ôl y Ddeddf, i sicrhau mynediad rhesymol i bobl ag anableddau. Mae methu â chydymffurfio â hyn yn achosi risg i werth am arian o safbwynt cyflenwi gwasanaeth anghyfartal a gall achosi canlyniadau ariannol oherwydd ymgyfreitha. Gwyddys bod mynediad i'r anabl yn broblem mewn sefydliadau addysg bellach lle'r oedd angen gwaith gwerth rhyw £20 miliwn yn 2001 er mwyn sicrhau cydymffurfiant â'r Ddeddf. Mae'r Pwyllgor wedi edrych ar y broblem hon mewn gohebiaeth gyda'r Gweinidog a'r Cyngor Cenedlaethol a bydd y Cyngor Cenedlaethol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd yn ddiweddarach yn 2005. Nid ydy maint y broblem mewn sefydliadau addysg uwch eto wedi'i feintioli. O safbwynt ysgolion, mae *Cynllunio i gynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion anabl,* a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ym mis Mawrth 2004, yn mynnu bod AALlau'n llunio strategaethau ar gyfer cydymffurfio. Mewn rhai achosion, gall hyn fod yn heriol gan fod ansawdd Cynlluniau Rheoli Asedau addysg awdurdodau lleol yn amrywio.

Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio ymdrechion sefydliadau addysgol i geisio cydymffurfio gan ganfod arfer da a meysydd lle gellir gwella. Yn dibynnu ar waith cwmpasu, gall gynnwys sefydliadau Addysg Bellach, sefydliadau Addysg Uwch ac ysgolion - yn achos yr olaf, bydd yn tynnu ar waith lleol i ystyried cydymffurfiant fel rhan o reoli asedau'r ysgol. O safbwynt sefydliadau Addysg Bellach, byddai'n rhaid i waith cwmpasu ystsyried ymateb y Cyngor Cenedlaethol i'r Pwyllgor Archwilio.

## Datblygiad Economaidd a Thrafnidiaeth

***Ar gyfer 2006-07***

### Trafnidiaeth Integredig

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gwario rhyw £830 miliwn yn 2005-06 ar drafnidiaeth. Er bod yr elfen fwyaf o'r gwariant hwn ar briffyrdd a thraffyrdd (rhyw £650 miliwn), mae hefyd yn cynnwys arian ar gyfer mentrau i leihau'r defnydd o geir a darparu atebion trafnidiaeth integredig, cynaliadwy. Mae trafnidiaeth integredig yn rhan bwysig o agenda datblygiad cynaliadwy'r Cynulliad ac mae'n effeithio ar werth cyffredinol a geir o wario ar drafnidiaeth. Mae mentrau trafnidiaeth integredig yn cynnwys arian cyfalaf ar gyfer gwasanaethau teithwyr ar reilffyrdd Glyn Ebwy a Bro Morgannwg ac ar deithio am ddim ar fysiau i'r rhai dros 60 oed. Y Cynulliad sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r rhain ond mae awdurdodau lleol yn gyfrifol yn bennaf am gyflenwi'r cynlluniau ac mae Trenau Arriva Cymru'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd. Byddai'r astudiaeth yn archwilio a ydy'r mentrau amrywiol yn darparu trafnidiaeth gwir integredig, lefel y gwasanaethau i deithwyr a'r effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol cyntaf. Byddai hefyd yn archwilio pa mor dda mae'r mentrau'n cyfannu ei gilydd, pa mor dda maen nhw'n cydlynu a pha mor dda mae'r trefniadau rheoli ac ariannu'n gweithio'n ymarferol. Byddai'n cynnwys ystyriaeth o ddefnydd a gweinyddiad grantiau trafnidiaeth a ddarperir i awdurdodau lleol gan y Cynulliad.

***Dewisiadau eraill ac astudiaethau ar gyfer 2007-08 neu ar gyfer y dyfodol***

### Rôl y sector cyhoeddus yn darparu a rheoli adeiladau busnes

Mae prinder safleoedd addas yn atal buddsoddwyr posibl yng Nghymru ac mae problem fawr o fethiant yn y farchnad oherwydd bod cost datblygiad nad sy'n fan-werthiant yn fwy na gwerth y farchnad mewn sawl rhan o'r wlad. Er bod gormod o hen eiddo diwydiannol, mae prinder safleoedd modern o ansawdd da ac eiddo sy'n cyflawni gofynion buddsoddwyr mawr a rhai mathau o fusnesau newydd. Mae'r sector cyhoeddus wedi helpu am nifer o flynyddoedd drwy ddarparu eiddo'n uniongyrchol ac yn fwy diweddar drwy ddarparu grantiau i ddatblygwyr preifat. Mae'r gost yn sylweddol: mae'r WDA yn bwriadu gwario £62 miliwn yn 2005-06 a bydd awdurdodau lleol yn defnyddio arian yr UE i ariannu eu datblygiadau eu hunain.

Roedd y WDA yn cyhoeddi strategaeth eiddo yn 2004 i ganfod anghenion eiddo'r dyfodol a threfniadau ariannu preifat arloesol i ariannu datblygiadau newydd mawr. Roedd yn nodi nad oedd y sefyllfa wedi newid rhyw lawer er bod cynnydd da wedi'i wneud dros y ddwy flynedd flaenorol. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio cynnydd wrth weithredu'r strategaeth, yn adolygu'r dystiolaeth y seiliwyd hyn arni ac yn asesu tystiolaeth gynnar o'i llwyddiant yn cyflawni'r galw, lleihau'r gost net, gwella ansawdd a chyflawni'r amcanion strategol ehangach.

### Techniums (adeiladau busnes gyda chefnogaeth ddwys)

Mae technium yn darparu adeilad o safon uchel sy'n cael ei wasanaethu o dan un to ar gyfer busnesau bach yn ymwneud â gwybodaeth, fel arfer mewn sector penodol o'r economi. Y nod yw darparu cefnogaeth ddwys, gan gynnwys cysylltiadau cadarn gydag academia i gynorthwyo gwaith ymchwil a datblygiad ar gyfer busnesau bach gyda photensial i dyfu. Yr Awdurdod Datblygu sy'n rhedeg y rhaglen ac mae wedi cwblhau wyth technium ar draws Cymru gyda safleoedd penodol ar gyfer peirianneg perfformiad, meddalwedd, cyfryngau digidol, optoelectroneg a thechnolegau cynaliadwy. Mae'n rhaglen arloesol â risg uchel ac mae'r ymateb hyd yn hyn wedi bod yn gymysg. Hefyd, mae penderfyniadau pwysig i'w gwneud ar ddyfodol y techniums gan gynnwys a ddylid trosglwyddo'r eiddo a'r gwasanaethau busnes i'r sector preifat. Byddai'r astudiaeth yn archwilio dangosyddion cynnar o effaith y techniums ar fusnesau cleientiaid ac ar

arloesi’n fwy eang. Byddai hefyd yn adolygu effeithiolrwydd ac ansawdd y gwasanaethau a gynigir i denantiaid busnes gan gynnwys yr opsiynau ar gyfer twf ac ariannu yn y dyfodol.

## Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

***Ar gyfer 2006-07***

### Cymunedau’n Gyntaf

Mae’r rhaglen Cymunedau’n Gyntaf yn strategaeth tymor hir i wella amodau byw a rhagolygon pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Y bwriad ydy helpu cymunedau difreintiedig i helpu eu hunain. Mae’n darparu ‘cydlynwyr’ sy’n gweithio gyda phobl leol, awdurdodau lleol, grwpiau gwirfoddol a busnesau i sefydlu partneriaethau a phrosiectau sy’n helpu i ddatblygu’r gymuned mewn dulliau cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy, fel drwy sefydlu cyfleusterau gofal plant yn y gymuned. Mae’r Cynulliad wedi dyrannu dros £65 miliwn i’r rhaglen ers ei dechrau yn 2001, gyda £32 miliwn arall ar gael yn y gyllideb ar gyfer 2004-05. Byddai’r astudiaeth hon yn archwilio sut mae arian yn cael ei ddefnyddio a’i fonitro ac yn asesu’r effaith y mae hyn yn ei gael.

***Dewisiadau eraill ac astudiaethau ar gyfer 2007-08 neu ar gyfer y dyfodol***

### Y cynllun Cymorth Prynu

Cyflwynwyd Cymorth Prynu yng Nghymru yng nghanol yr 1990au i annog perchnogaeth cartrefi pris isel. Mae’n ffurf o fenthyciad ecwiti lle mae landlord cymdeithasol cofrestredig yn talu rhan o’r gost prynu gwreiddiol drwy ddefnyddio Grant Tai Cymdeithasol ac mae’n cael ei drin fel benthyciad di-log i’r prynwr. Wrth werthu, neu ynghynt os bydd y prynwr yn dymuno, mae’r landlord cymdeithasol cofrestredig yn derbyn y canran perthnasol o werth y farchnad bresennol. Bydd y derbyniadau hyn yn cael eu hail fuddsoddi i gynnig Grant Tai Cymdeithasol pellach. 30 y cant o’r gost prynu gymeradwy ydy’r benthyciad ecwiti safonol ond gellir cynyddu hwn i 50 y cant mewn ardaloedd gwledig neu mewn cynlluniau ail ddatblygu tai cymdeithasol. Mae’r defnydd o Gymorth Prynu yn fater i’r awdurdodau lleol benderfynu arno o’r cyfanswm Grant Tai Cymdeithasol a ddyrennir iddyn nhw’n flynyddol. Yn 2003-04, defnyddiwyd £5.68m i gefnogi prynu 198 tŷ mewn 15 awdurdod lleol. Byddai’r astudiaeth hon yn archwilio gweinyddiad y cynllun, lefel y galw gwaelodol ac i ba raddau yr oedd yn cyflawni ei amcanion. Mae’r Cynulliad yn comisiynu ei adolygiad ei hun o berchnogaeth tai pris isel gan gynnwys y cynllun Cymorth Prynu a byddai’n rhaid ystyried canlyniadau’r gwaith hwnnw cyn dechrau ar yr astudiaeth hon.

### Delio â Chamddefnyddio Sylweddau

Lansiodd y Cynulliad ei strategaeth *Delio â Chamddefnyddio Sylweddau, Ymagwedd Partneriaeth* ym mis Ebrill 2000. Mae hon yn strategaeth wyth mlynedd a luniwyd i gyd-ddigwydd gyda strategaeth y DU *Tackling Drugs to Build a Better Britain* (1998-2008). Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gyflawni’r strategaeth camddefnyddio sylweddau’n lleol i’r 22 Partneriaeth Diogelwch y Gymuned yng Nghymru a sefydlwyd ym mis Ebrill 2003 ar ôl ad-drefnu’r GIG yng Nghymru. Mae’n cynnwys amrediad o fudd-ddeiliaid gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff iechyd ac addysg, yr heddlu a’r sector gwirfoddol. Byddai’r astudiaeth hon yn ystyried y cynnydd a wnaed tuag at y nodau a’r amcanion yn y strategaeth hon a bydd yn canfod y rhwystrau rhag cynnydd yn y dyfodol. Bydd yn

ystyried y gweithdrefnau ar gyfer dyrannu a monitro darpariaeth i ddelio â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru ynghyd ag asesu llwyddiant gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol.

Nodwedd bwysig ymdrechion y Cynulliad i ddelio â'r broblem hon oedd sefydlu Cronfa Cynllunio Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau ac mae'r ddarpariaeth hon wedi cynyddu'n sylweddol i £15.6 miliwn yn 2004-05. Pwrpas yr arian hwn yw cynorthwyo i weithredu'r anghenion a ganfuwyd drwy'r cynlluniau gweithredu lleol sy'n cael eu datblygu gan y Partneriaethau Diogelwch y Gymuned. Gallai fersiwn arall o'r astudiaeth hon archwilio'r cynnydd a wneir gan Bartneriaethau Diogelwch y Gymuned wrth ddatblygu'r strategaeth Camddefnyddio Sylweddau ar lefel leol gyda chyfeiriad penodol at ddosbarthu'r Gronfa Cynllunio Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau..

### Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau yn y Gymuned

Lansiwyd y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau yn y Gymuned ym mis Tachwedd 2002 ac mae'n gynllun grant a weithredir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu mudiadau gwirfoddol a rhai yn y gymuned i ddarparu cyfleusterau neu gynnal gweithgareddau fydd yn hybu adfywio cymunedau. Adolygwyd gweithredu'r Rhaglen yn ystod 2003 ac, er mwyn symleiddio'r llwybrau ariannu sy'n agored i'r sector gwirfoddol, mae wedi'i huno gyda Chronfa Adfywio Leol Sector y Gymuned a'r Sector Gwirfoddol. Pwrpas y Gronfa hon yn bennaf oedd darparu arian cyfatebol i Gronfeydd Strwythurol Ewrop er y rhoddir ystyriaeth hefyd i gynigion ariannu heb fod yn rhai cyfatebol, yn arbennig mewn ardaloedd nad sy'n gymwys i gael Arian Strwythurol yr UE. Mae'r gyllideb ar gyfer y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau yn y gymuned a ail frandiwyd wedi codi i £7.7 miliwn ar gyfer 2004-05. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio trefniadau asesu a monitro ar gyfer y rhaglen ac a ydy prosiectau sy'n cael eu cefnogi'n cyflawni'r amcanion a gynlluniwyd.

## Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

***Ar gyfer 2006-07***

### Canolfan Mileniwm Cymru

Agorwyd Canolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2004. Cyfanswm y gost oedd £106 miliwn gan gynnwys £80 miliwn o arian cyhoeddus (yn bennaf gan Lywodraeth y Cynulliad, Comisiwn y Mileniwm a Chyngor Celfyddydau Cymru – llawer ohono felly o'r Loteri). Mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn darparu £2 miliwn y flwyddyn mewn cefnogaeth refeniw ar gyfer y Ganolfan. Mae gan y Ganolfan dargedau cynulleidfa uchelgeisiol sy'n creu sialensiau sylweddol i'r rheolwyr. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio pa mor dda roedd y prosiect i sefydlu'r Ganolfan wedi'i reoli a pha mor dda mae'r Ganolfan wedi gweithredu yn ei blwyddyn gyntaf fwy neu lai, yn arbennig o safbwynt costau gweithredu a nifer yr ymwelwyr.

***Dewisiadau eraill ac astudiaethau ar gyfer 2007-08 neu ar gyfer y dyfodol***

### Iaith Pawb – creu Cymru ddwyieithog

'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog' ydy Iaith Pawb a lansiwyd ym mis Tachwedd 2002. Mae'n ceisio hybu a chynnal y defnydd o'r Iaith Gymraeg a rhoi cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i bobl sy'n byw yng Nghymru ddefnyddio a dysgu'r iaith os byddan nhw'n dymuno, fel rhan o'u bywyd bob dydd. Mae'r Cynllun yn gosod nifer o dargedau allweddol i'w cyflawni erbyn 2011 gan gynnwys cynyddu'r canran o bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r canran o blant sy'n derbyn addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg gan sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn clustnodi bron i £30 miliwn o gefnogaeth ariannol ychwanegol i'r Cynllun Gweithredu dros y tair blynedd 2003-04 i 2005-06, yn bennaf ar ffurf arian ychwanegol i fentrau a mesurau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o fewn y strwythurau addysg ffurfiol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Gweithredu ac am fonitro ac adolygu ei effaith. Byddai'r astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd y mentrau a'r mesurau a gyflawnwyd hyd yn hyn ac yn asesu'r cynnydd tuag at gyflawni'r prif dargedau yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol. Byddai hefyd yn amlygu materion lle mae angen gweithredu'n llawn yn y dyfodol i weithredu Iaith Pawb. Byddai amseru a chwmpas yr astudiaeth yn ystyried adolygiad a drefnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar y rhaglen yn 2007.

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Rheoli Casgliadau

Prif bwrpas Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Aberystwyth) ydy casglu, cadw a chynnal a chadw deunyddiau argraffedig, llawysgrifau ac archifau, deunyddiau gweledol a chlyw-weledol a deunydd electronig sy'n ymwneud â Chymru a'r Celtiaid. Ei brif amcanion eraill yw rhoi mynediad i'r deunyddiau sydd ganddi, i hysbysebu a dehongli ei chasgliadau ac i gydweithio gyda chyrff eraill i wneud hyn. Mae'r Llyfrgell yn derbyn rhyw £14 miliwn y flwyddyn mewn cronfeydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Llyfrgell yn wynebu sawl her i reoli casgliadau. Mae gan y Llyfrgell ôl-groniad sylweddol o ddeunydd heb ei gatalogio a rhai eitemau casgliadau'n cael eu storio o dan amodau anaddas ac anniogel. Mae ei systemau technoleg gwybodaeth ar gyfer catalogio ac archifo asedau casgliadau yn gynyddol anaddas i'r pwrpas. Mae'n rhaid ymdrin hefyd â materion sy'n ymwneud ag amlyncu, cadw a chael mynediad i ddeunyddiau digidol, yn arbennig o gofio'r ddeddfwriaeth Adneuo Cyfreithiol newydd ac

mae angen gwneud gwelliannau a chynnal a chadw adeilad y Llyfrgell. Mae'r Llyfrgell yn brasamcanu bod yn rhaid cael rhyw £7 miliwn i ddelio â'r ôl-groniad cynnal a chadw (h.y. y swm sydd ei angen i sicrhau bod cyflwr yr adeiladau i fyny i safon uchel). Mae'n delio â'r materion drwy raglen o gatalogio ôl-weithredol a rhesymoli ei chasgliadau, prynu system gyfrifiadurol gorfforaethol newydd (ar darged i'w cwblhau erbyn 2006-7), asesiad parhaus o archifo digidol ac o ofynion mynediad a rhaglen o waith adeiladu.

Byddai'r astudiaeth yn archwilio i ba raddau y mae'r Llyfrgell yn rheoli datblygu ei threfniadau rheoli casgliadau. Byddai'n canolbwyntio ar gynnydd y Llyfrgell i ddelio â'i hôl-groniad o ddeunyddiau sydd heb eu catalogio, ar wella ei storio casgliadau (yn ffisegol ac yn electronig) ac i annog mynediad y cyhoedd, corfforol a rhithwir i'w chasgliadau. Byddai'n cyfannu'r astudiaeth flaenorol ar reoli casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2004. Byddai'n amlygu arfer da wrth reoli casgliadau a chanfod gwelliannau i drefniadau catalogio, storio a chael mynediad i'r Llyfrgell.

### Mwyhau buddiannau prif ddigwyddiadau chwaraeon

Mae Gêmau Olympaidd Llundain 2012 yn rhoi cyfleoedd i hybu chwaraeon a'i fuddiannau yng Nghymru. Bydd Stadiwm Mileniwm Cymru'n lletya saith gêm bêl droed fel rhan o'r Chwaraeon. Hefyd, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i ddefnyddio amrywiol gyfleusterau yng Nghymru fel 'gwersylloedd aros' i dimau sy'n ymweld, cyn agor pentref yr athletwyr. Mae lletya Cwpan Ryder 2010 yn y Celtic Manor yn cynnig cyfleoedd tebyg. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio a ydy'r Cynulliad a Chyrff a Noddir gan y Cynulliad mewn sefyllfa i fwyhau iechyd a lles, economi, twristiaeth a buddiannau diwylliannol digwyddiadau o'r fath. Yn benodol, byddai'n asesu a ydy'r Cyngor Chwaraeon a'r Cynulliad yn gwneud defnydd da o'r cyfleoedd unigryw hyn i amlygu pwysigrwydd chwaraeon ac ymarfer corff. Fel y cyfryw, byddai'n cynnig dilyniant thematig i'r archwiliad presennol ar gynyddu ymarfer corff yng Nghymru.

## Gweinyddu'r Cynulliad

***Ar gyfer 2006-07***

### Hyfedredd masnachol

Mae sicrhau gwerth gorau am wariant cyhoeddus ar nwyddau a gwasanaethau i raddau helaeth yn ddibynnol ar drafod a gweithredu cytundebau addas. Mae hyn yn arbennig yn wir pan fydd angen neu fwriad i gael partneriaeth, yn hytrach na pherthynas syml prynwr-ddarparwr. Mae cytuno ar gytundebau addas, yn eu tro, yn ddibynnol ar gael arbenigedd masnachol mewnol digonol neu ei gael gan ymgynghorwyr o safon uchel. Byddai'r astudiaeth hon yn asesu lefelau hyfedredd masnachol presennol drwy, ymhlith pethau eraill, archwilio a ydy cytundebau diweddar a threfniadau partneriaeth ar ffurf briodol. Byddai'n archwilio sut mae Llywodraeth y Cynulliad a chyrff perthynol yn prynu arbenigedd masnachol, yn asesu a ydy hyn yn cael ei wneud ar raddfa briodol ac mewn amgylchiadau priodol. Byddai felly'n canfod dulliau o gael gwell gwerth o ymgynghori a meysydd lle mae angen atgyfnerthu arbenigedd mewnol. Byddai'r astudiaeth hefyd yn archwilio ymdrechion i wella hyfedredd masnachol mewnol.

## *Dewisiadau eraill ac astudiaethau ar gyfer 2007-08 neu ar gyfer y dyfodol*

### Ymgorffori'r WDA, WTB ELWa a'r WLB i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ar 14 Gorffennaf y byddai Awdurdod Datblygu, Bwrdd Croeso Cymru ac ELWa yn cael eu hamsugno i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru o 1 Ebrill 2006 gan derfynu eu statws fel Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o hyd braich. Nod yr uno yw darparu gwasanaeth di-dor, integredig a chwsmer-ganolog. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'r uno gostio £44m, ac mae'n amcangyfrif y bydd arbedion posibl o tua £10m y flwyddyn o 2009. Byddai'r astudiaeth yn archwilio cynllunio a gweithredu'r uno ond gellid ei hymestyn i ystyried hefyd yr effaith ar wasanaethau ac adnoddau.

### Strategaeth adleoli Llywodraeth Cynulliad Cymru

Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio strategaeth y Cynulliad i adleoli swyddi amrywiol raddau Llywodraeth y Cynulliad sydd ar hyn o bryd yng Nghaerdydd. Bydd y strategaeth yn arwain at rai costau ychwanegol ond hefyd yn cynnig y posibilrwydd o arbedion mewn swyddfeydd rhatach y tu allan i Gaerdydd. Mae hefyd yn cynnig y posibilrwydd o fuddiannau economaidd ehangach ynghyd ag ymestyn presenoldeb y Cynulliad y tu allan i Gaerdydd ac ar draws Cymru. Mae'r strategaeth yn gyson gyda darganfyddiadau Adolygiad Lyons yn Lloegr sy'n ceisio dosbarthu staff y gwasanaeth sifil o Whitehall i leoliadau newydd yn rhanbarthau Lloegr. Byddai'r astudiaeth yn ystyried costau adleoli staff, y buddiannau a wireddir a'r raddfa o barhad busnes a gyflawnir. Byddai'n ystyried trosiant staff sy'n codi o adleoli, moral staff yn y swyddfeydd newydd ac effaith economaidd y strategaeth. Byddai hefyd yn cynnwys cymhariaeth gyda'r broses, costau a'r buddiannau adleoli a gafwyd yn Lloegr a'r Alban.

# Atodiad 2: Amlinelliad o raglen ddrafft astudiaeth llywodraeth leol 2005-06

Yn 2004-05, roedd rhaglen astudiaeth llywodraeth leol yn cynnwys astudiaeth Ynni a Dŵr i gefnogi targedau effeithlonrwydd 'Creu'r Cysylltiadau' ac Astudiaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Ar gyfer 2005-06, y cynnig ydy:

- parhau gyda'r thema Ynni a Dŵr drwy ei ymestyn i gynnwys tai, stoc llywodraeth leol a chymdeithasau tai;
- cynnal adolygiad o drefniadau rheoli parodrwydd llywodraeth leol i gyflawni agenda 'Creu'r Cysylltiadau'.

## Rheoli Ynni a Dŵr yn y sector Tai

Mae'r Ddeddf Arbed Ynni Cartref (HECA) 1995 yn gosod targedau gwella ar gyfer llety preswyl erbyn 2007 o gymharu â'r perfformiad stoc ym 1997. Disgwylir gwelliannau i effeithlonrwydd ynni mewn tai cymdeithasol hefyd drwy'r Safon Ansawdd Tai Cymru sy'n gosod safon gyffredin ar gyfer cyflwr ffisegol yr holl dai cymdeithasol presennol, i'w gyflawni erbyn 2012. Erbyn diwedd 2006, bydd yn rhaid bod yr holl awdurdodau lleol a chymdeithasau tai wedi cwblhau arolwg cyflwr stoc. Mae Cytundeb Polisi Effeithlonrwydd Ynni Llywodraeth y Cynulliad gydag awdurdodau lleol yn mynnu gwelliant o 14 y cant men effeithlonrwydd ynni domestig erbyn 2007. Mae'r stoc tai'n cynnwys yr holl eiddo domestig yn y sectorau cyngor, cymdeithasau tai, perchennog ddeiliad neu ar rent yn breifat. Mae'r lefel bresennol o welliannau a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad yn dangos na fydd y targed yn cael ei gyflawni.

Bydd yn delio â materion fel a ydy'r trefniadau rheoli presennol sydd gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, yn ddigon effeithiol i gyflawni'r targedau effeithlonrwydd ynni, a ydy adnoddau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni'n cael eu targedu'n effeithiol, a ydy arian allanol ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol, a ydy awdurdodau lleol a'r sector preifat yn gweithio gyda'i gilydd i wella effeithlonrwydd ynni ac a ydy trefniadau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a thenantiaid tai am faterion effeithlonrwydd ynni'n effeithiol.

## Creu a chyflenwi'r Cysylltiadau: trefniadau rheoli o fewn Llywodraeth Leol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i fwyhau gwerth am arian er mwyn cyflenwi gwell safon o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel y nodwyd yn *Creu'r Cysylltiadau.* Elfen allweddol o hyn ydy enillion effeithlonrwydd drwy gydweithrediad a chyd-drefniant mwy effeithiol rhwng asiantaethau'r sector cyhoeddus. Yn benodol, mae'n gosod ffigwr targed o £600 miliwn o arian gwell gwerth ar draws y prif gyrff cyhoeddus erbyn 2010. Disgwylir cyflawni hyn drwy ddulliau gweithio mwy effeithiol gan ostwng costau neu wella gwasanaethau. Mae'n gofyn am weithredu gan bawb o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol os am gyflawni'r amcanion. Mae *Gwneud y Mwyaf o'n Hadnoddau'* yn amlinellu ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad at sicrhau gwelliannau gwerth am arian a'r trefniadau ar gyfer diffinio, sicrhau, monitro a dilysu'r enillion. Bydd yr astudiaeth hon yn ceisio ateb y cwestiwn: "*Ydy llywodraeth leol yn ddigon parod i gyflawni'r targedau a amlinellir yn Creu'r Cysylltiadau?"* Bydd felly'n archwilio a oes trefniadau rheoli effeithiol i ganfod, sicrhau, monitro a dilysu enillion effeithlonrwydd o fewn awdurdodau lleol.

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôndestun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk